

Taith gerdded Dyffryn Ceiriog – cerdded i'r dwyrain

Wrth ddilyn yr afon i lawr o'r Bont Faen, mae gennych ddewis - anelu am Y Waun "O dan y draphont" (35 munud) neu "Coed y Castell" sy'n ugain munud tua'r orsaf drên, neu i faes parcio Glan Wylfa (15 munud).

Cam 1a – O dan y draphont

O'r Bont Faen i'r Waun Mae yna safle bws ger y Bont Faen

Pellter 1.5km (1 milltir) Cynnydd uchder
35 metr (112 troedfedd) Amser 35
munud.

Gan sefyll ar y bont, wynebchwch y briffordd ac ewch drwy'r giât mochyn ar y dde. Dilynwch yr afon am naw munud, o dan y draphont reilffordd enfawr ac yna'r draphont gamlas a adeiladwyd yn 1801 (cyn yr oedd son am reilffyrdd o gwbl!)

Dilynwch yr afon am wyth munud arall at adeilad briciau. Ewch i fyny'r ramp at y briffordd (y prif gyswllt rhwng Caergybi a Llundain tan yn gymharol ddiweddar). Croeswch y ffordd gyda gofal. Ewch tua'r chwith i'r hen felin, trwy fwch rhwng dwy giât fetel a llwybr sydd wedi ei orchuddio â tharmac. Dilynwch hen ffriwyd y felin. Ar ôl croesi camfa a phont troed fach, ewch ymlaen ar hyd y llwybr sy'n gwyro tua'r dde, i fyny at hen wal gerrig. Mae grisiau a chamfa yn dilyn at y briffordd. Ewch i'r dde am ryw ddau funud yn ôl i faes parcio Y Waun.

Cam 1b – Coed y Castell

Y Bont Faen i orsaf drenau Y Waun

Pellter 1km (0.6 milltir) Cynnydd uchder
30 metr (100 troedfedd) Amser 20 munud.

O'r bont, wynebchwch y ffordd fawr. Anwybyddwch y giât mochyn ar y dde, a cherdded i fyny'r allt ar y ffordd fawr am gan fetr. Dilynwch llwybr troed sy'n fforchio i'r chwith trwy goedlan, gan groesi llwybr y dramffordd hanesyddol. Ar ôl 200 metr, mae'r llwybr yn mynd trwy wal gerrig isel. Ar ôl tua phymtheg metr, trowch i'r chwith i ddilyn llwybr caregog. Ewch heibio parc carafân ac ewch ymlaen i gyrraedd giatiau gwyn cain a hyfryd y castell. Ewch i'r dde yma am bum munud olaf eich taith ac i'r orsaf.

Os ydych chi'n awyddus i ymweld â'r Waun, ewch ymlaen am wyth munud.

Cam 1c – O'r Bont Faen i faes parcio Glan Wylfa

Pellter 750m (470 llathen) Cynnydd uchder 30 metr Amser 14 munud.

O'r bont, wynebchwch y ffordd fawr. Anwybyddwch y giât mochyn ar y dde, a cherdded i fyny'r allt ar y ffordd fawr am gan fetr. Dilynwch llwybr troed sy'n fforchio i'r chwith trwy goedlan, gan groesi llwybr y dramffordd hanesyddol. Ar ôl 200 metr, mae'r llwybr yn mynd trwy wal gerrig isel. Ewch syth yn eich blaen, gan anwybyddu'r llwybr sy'n arwain i'r chwith. Croeswch bont droed (y *Matchbox*) sy'n croesi'r dramffordd ac yn gorffen ar y ffordd fawr. Croeswch y

ffordd, ewch ymlaen at gylchfan bach, ble mae yna gyfle gwych i edmygu'r draphont a'r draphont ddŵr fendigedig. Gyda llaw, mae twnnel y gamlas o dan eich traed! Mae'r maes parcio yn agos iawn yma.

Cam 2 – Y daith i Loegr

O Glawdd Offa i'r Bont Faen Mae yna safleoedd bws ger y Bont Faen a Melin y Castell Does bron iawn dim llefydd parcio ger y felin, ond mae yna drafnidiaeth gyhoeddus

Pellter 2.7km (1.7 milltir) Cynnydd uchder Rhyw 5 metr (20 troedfedd) Amser 47 metr.

Mae'n syniad da i ddarllen y byrddau gwybodaeth sydd tu ôl y wal gerrig am fanylion Brwydr Crogen, cyn croesi'r bont ar draws yr afon a fyny'r lôn fer serth at y draffordd. Ewch i'r chwith ar hyd y lôn yma am tua deg munud at yr hen ysgoldy ar y dde, gyda chloc uwchben un o'r ffenestri uchaf a meindwr sydd â cheiliog gwynt. Rhyw ugain metr heibio'r tŷ, ewch i'r chwith i lôn darmac.

Rydych chi wedi dechrau'r daith!

O'r clawdd, ewch ar hyd llwybr llydan sydd â choed ffawydd hardd ar y dde a golygfeydd gwych i'r chwith. Ar ôl deg munud, ewch i'r chwith ar groesffordd, i lawr allt ar hyd llwybr cerrig da am 200 metr. Croeswch y gamfa ar y dde. Ewch ymlaen at y cyfuniad o wal gerrig doredig a gwrych, heibio boncyff mawr a thrwy fwch yn y gwrych. Trowch i'r dde yma ac ymlaen am tua phymtheg metr at giât a chamfa. Ewch i'r dde o'r adeilad cerrig a briciau ac ymlaen, gan fynd heibio'r ysgoldy hardd ac at ffordd darmac.

Ewch ymlaen am ugain metr, yna i'r chwith i lawr yr allt ar lôn darmac. Ewch heibio'r arwydd Llwybr Cyhoeddus ar y dde ac ymlaen drwy ddwy glwyd ac ar hyd llwybr sy'n mynd heibio i aethnen ddu (*black poplar*) hynafol, hardd a phrin ac at gamfa a chlwyd. Dyma'ch cyfle olaf i weld y castell cyn troi'r dde ar hyd llwybr i Goedwig Pentre am ddeg munud. Dilynwch y grisiau pren i fyny ac wedyn i lawr. Ar y chwith mae Fferm Brithyll Y Waun. Dilynwch lan yr afon a thrwy glwyd/camfa i weirglodd. Croeswch y cae ar ei hyd at gae arall, tros y gamfa at lôn darmac a blwch ffôn. Ewch i'r chwith am funud i gyrraedd y Bont Faen, a chroeswch y bont i ddychwelyd i Gymru!

Mae yna gyfle i dal y bws yma, ond mi fyddai hynny'n eich amddifadu o dri chyfle gwych i gyrraedd Y Waun.

Cam 3 – Lonydd llonydd a phorfeydd gwelltog

O Bontfadog i Glawdd Offa

Pellter 3.5km (2.2 milltir) Cynnydd uchder 170 metr (550 troedfedd) Amser Un awr a phymtheg munud.

O'r Swyddfa Bost, croeswch y ffordd tua'r maes parcio, gan ddilyn y lôn dros y bont sy'n croesi'r afon. Dringwch y bryn, gan anwybyddu pob trofa i'r dde am 1.5 km (1 filltir) i gyrraedd y tir uwch. Ar ôl darn gwastad, mae'r lôn yn anelu am i lawr. Ewch ymlaen am tua 13 munud at ysgubor Nissen ar y chwith sydd yng nghysgod coed bytholrwydd tal a gyferbyn nant fach lafar.

Mae yna ffordd haws ar hyd y lonydd. Mae hynny'n osgoi 60 metr (195 troedfedd) o ddringo a thua munud (Camau 3-2). Os yw'r coesau'n gwanhau, mae yna lôn i Fronygarth ac wedyn i lawr y lôn serth at y felin am fws.

Mae'r lôn yn gwyro i'r chwith yma, ond rydyn ni'n mynd ymlaen at hyd rodfa darmac am ddwy funud at ei therfyn. Ewch drwy'r giât, yna i'r dde ar unwaith trwy fwch yn y gwrych. Ewch i fyny'r cae serth, gan gadw'r gwrych ar eich chwith a thros gamfa. Dyma gyfle i gael eich gwynt atoch! Yna ymlaen am 30 metr i'r chwith at goed draenen wen. Mae'r tir yn haws nawr, felly ewch ymlaen ac yna i lawr i gornel gwaelod y coetir sydd i'r dde o'r cae. Ewch heibio sycamorwydden fawr unig, a heibio dwy goeden draenen wen a thros gamfa. Ewch i fyny'r allt raddol i'r chwith, gan anelu i fynd heibio coetir sydd ar dde'r weirglodd. Ewch o dan y coetir ac i'r chwith gan ddilyn trywydd gwastad. Ewch heibio clogfaen ac ymlaen at glwyd a chamfa ym mhen pellaf y cae. Ar ôl croesi'r gamfa, trowch i'r dde ar unwaith ac i fyny'r allt am 50 metr at gamfa arall ac ar hyd llwybr sy'n anelu at i fyny. Mewn pum munud mi fyddwch yn croesi camfa ger clwyd ac at lwybr lletach. Ewch i'r chwith am 30 metr i gyrraedd Clawdd Offa. Dyma'r ffin hyd y dydd heddiw, 1200 o flynyddoedd ers ei adeiladu – felly dyma ei chroesi i Loegr!

Er mwyn dal bws, dilynwch lwybr y clawdd i lawr at lôn i Felin y Castell ar y ffordd fawr, y B4500.

Cam 4 – Coetir a phorfa

O Glyn Ceiriog i Bontfadog. Safleoedd bws, swyddfa bost, siopau, Y Stiwt, tafarndai, Canolfan Cristnogol yn cynnig bwyd a diod yng Nglyn Ceiriog. Safle bws, tafarn, swyddfa bost a garej ym Mhontfadog – ac ystafell aros ar gyfer y tram

Pellter 4km (2.5 filltir) Cynnydd uchder 60 metr (190 troedfedd) Amser Awr a 25 munud.

Gan adael The Cross, dilynwch ffordd fach i lawr yr allt at y swyddfa bost. Croeswch y ffordd a dilyn llwybr yr afon. O fewn saith munud mi fyddwch yn gorfod croesi'r ffordd fawr eto. Ewch ar hyd y lôn gerllaw maes chwarae'r ysgol at gyffordd o fewn pedwar munud. Trowch i'r dde am wyth munud, ar hyd y lôn yma, heibio blwch post. Ewch heibio sedd ffordd a chroeswch y gamfa ar y chwith. Ewch ar draws y cae a thu ôl yr adeilad hannergoediog, gan wro y i'r dde y tu ôl i'r adeilad i ddilyn y llwybr uwchben y gwrych. Cyn cyrraedd rhigol y nant, trowch i'r chwith am 50 metr at gamfa a phont droed i groesi'r nant.

Mae llwybr yn eich arwain o dan stablau ac at glwyd, yna i fynd rhodfa i'r chwith o'r tŷ at lôn. Ewch i'r chwith, i fyny'r lôn, am ddau funud, at dro cas ble mae'r llwybr yn gadael y lôn rhwng dau adeilad adfail. Ar ôl croesi'r gamfa, ewch ar draws y cae tua'r chwith ac i fyny gan ddilyn y gwrych am ddau funud at gamfa, yna ymlaen am 'un funud fach' arall at gamfa a grisiau ar y chwith. Ewch ymlaen uwchben yr un gwrych am ddau funud i groesi camfa yng nghornel dde uchaf y cae. Trowch tua'r dde ac i lawr ar lwybr rhwng gwrychoedd. Mae camfa yn arwain at gae agored. Ewch ymlaen trwy'r pant tuag at glwyd a chamfa at goetir cymysg. Ewch ar draws y coetir am dri munud yna'n syth i lawr yr allt a thros y gamfa at lôn darmac.

Trowch i'r chwith ac ar hyd lôn am saith munud at groesffordd pensaeth. Ewch ymlaen am 150 metr, ond cyn i'r ffordd droi am i lawr ger wal uchel ar y chwith, fforchwch tua'r chwith ar lwybr am 200 metr (tri munud), yna fforchwch i'r dde ac i lawr ar lwybr coediog am bedwar munud at ei derfyn ger tŷ ar y dde. Dilynwch drofa sydyn i'r dde i lawr lôn darmac ar y ffordd fawr ac i'r chwith ar hyd y ffordd am chwe munud tuag at ganol Pontfadog.

Cam 5 – Craig y Pandy

Pandy i Glyn Ceiriog Stiwdio gwydr a safle bws ym Mhandy

Pellter 2.5km (1.5 milltir) Cynnydd uchder
150 metr (500 troedfedd) Amser 55 metr.

Mae'r rhan yma o'r daith yn mynd dros Graig y Pandy fendigedig, Arglwyddes y dyffryn - ac mi fydd gennych eich gwynt yn eich dwrn wrth gyrraedd i dalu gwrogaeth! Dewis arall yw ffordd llawr y dyffryn, sy'n llawer haws ac sy'n torri ugain munud oddi ar eich taith ond sy'n llawer llai o hwyl. Os ydych chi'n cymryd y llwybr yna, ewch yn ôl i lawr yr afon a throwch i'r chwith i ddilyn mwy o lwybr yr hen dramffordd sy'n ymuno â'r ffordd ymhen pum munud. Cerddwch ar hyd y ffordd fawr am ugain munud. Ond cofiwch - mi fyddwch yn colli golygfeydd gwirioneddol wych ac mae'n ffordd heb balmant felly pwyll piau hi.

Dyma'r llwybr rydyn ni'n ei argymhell: Mae'n dilyn y lôn fach i'r gogledd o'r isafon, Afon Teirw. O Bandy, dilynwch y lôn yma am 11 munud. Pum deg metr ar ôl bwthyn Rhosydd, dilynwch y fforch i'r dde i fyny llwybr caregog serth am saith munud at y rhyd. Peidiwch â chroesi'r rhyd - trowch i'r dde dros gamfa ac i fyny'r allt am 75 metr. Trowch i'r chwith ar ongl sgwâr at glwyd ac ymlaen am chwe munud i lwybr gwyrdd uwch adeilad adfail ar y chwith a thrwy'r glwyd o'ch blaen. Ewch i'r dde, dros glwyd arall, ac am chwe munud arall i fyny lôn goed i'r copa.

Trowch i'r chwith eto, ar hyd lôn goed arall at ei phen yna ar draws i'r de (uwchlaw'r ffens ac o dan y clawdd eithinog) gan wyro at y chwith ychydig i gyrraedd yr esgair ar ôl tua saith munud. Dyma gyfle i edmygu'r golygfeydd fel gwobr am eich gwaith caled i gyrraedd uchafbwynt y daith. Trowch i'r dde, gan ddilyn yr esgair goediog a chroesi llwybr caregog o fewn pedwar munud ar dir sy'n medru bod yn gorsiog. Cymrwch ofal wrth agosáu at adeiladau ffarm.

Mae'n bosib gwyro i'r dde i osgoi'r baw a'r llaid ond dewch yn ôl cyn gynted â phosib, gan fynd heibio'r adeiladau ar y dde a thrwy giât. Ewch i lawr ar hyd y llwybr cudd am saith munud at lôn ac ymlaen i lawr yr allt am bedwar munud at y ffordd fawr. Ewch i'r chwith ac o fewn pum munud mi fyddwch yng nghanol Glyn Ceiriog.

Safle bws, siopau, swyddfa bost, bwyd a diod yn y Ganolfan Gristnogol a'r tafarndai a'r Stiw.

Cam 6 – Y chwarel a'r dramffordd

Tregeiriog i Bandy Safle bws yn Nhregeiriog, Pentre-chwyth a Phandy. Stiwdio gwydr ym Mhandy.

Pellter 3 km (1.9 milltir) Cynnydd uchder Tua
15 metr (50 troedfedd) Amser 45 munud.

Croeswch y lôn ond *nid* y bont dros yr afon, gan ddilyn y lôn ar lan yr afon am saith munud a thrwy'r glwyd ar ochr y ffordd. Yn union ar ôl mynd trwy'r glwyd, a chyn i'r lôn ddringo i'r dde, ewch drwy'r glwyd ar y chwith i lwybr cyhoeddus caniataol* o'ch blaen ar draws y cae, gan ddilyn gwrych eithaf gwastad. Ewch dros ddau neu dri chae am ryw chwe munud at gamfa. Ewch ymlaen, gan groesi camfa arall ger nant bach lleidiog. Croeswch y nant i ddilyn llwybr sydd ddim mor amlwg â'r arfer, gan ddefnyddio'r gwrych sydd uwchlaw i'ch tywys. Ewch dros gamfa arall, a dilyn o dan derfyn y cae at gamfa arall (eto fyth!) ac ar ôl 11 munud i hen ffordd y porthmyn. Ewch i'r chwith ac i lawr yr allt am funud, ** yna trowch i'r dde wrth fwthyn gwyn.

Dilynwch y llwybr yma i fyny, rhwng adeiladau cerrig hyfryd sydd wedi cael eu hadnewyddu'n ddeniadol. Mae'r llwybr yn eich arwain at derfynfa'r hen dramffordd. Mi fyddwch yn mynd heibio hen chwarel peryglus y Hendre ymhen deg munud. Fforchiwch i'r dde, trwy goetir a heibio hen adeiladau'r chwarel am wyth munud. Croeswch gamfa, gan barhau at y tŷ gyda chloch (sef hen gartref meistr y chwarel) gan groesi lôn darmac at lwybr yr hen dramffordd, sydd nawr yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ewch yn eich blaen am ddeg munud i groesi'r afon dros bont y dramffordd. Ymhen pum deg metr, trowch i'r chwith ac ymlaen am ddau funud heibio tai a'r Stiwdio Gwydr. Dyma blwyf Pandy.

* Os yw'r llwybr cyhoeddus caniataol ar gau, dilynwch y lôn at y ffermdy gwyn, yna am i lawr ar hyd y llwybr cyhoeddus at gornel waelod y cae ger y nant. ** Mae'n bosib gadael y daith, neu ymuno â hi, trwy groesi'r bont tua Pentre-chwyth ar hyd y B4500 i ddal bws.

Mae'n bosib ymuno â'r llwybr yn Nhregeiriog trwy drafnidiaeth gyhoeddus at groesffordd Tregeiriog. Dilynwch y ffordd ymylol sy'n mynd i lawr allt at y bont dros yr afon ymhen pum munud.

Cam 7 – Ar drywydd ffesantod

Llanarmon i Dregeiriog Safleoedd bws yn Nhregeiriog a Llanarmon. Mae yna dai bach cyhoeddus a dau westy bendigedig yn Llanarmon. Ewch am dro o gwmpas y pentref hyfryd cyn bwrw at y daith. Mi fyddwch yn awyddus iawn i ddod i adnabod y fro hyfryd hon!

Pellter 2km (1.25 milltir) Cynnydd uchder
45 metr (140 troedfedd) Amser 35
munud.

Mae'r daith yn dechrau ar y groesffordd yng nghalon Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Dilynwch yr arwydd at Groesoswallt, heibio'r eglwys ac i fyny'r allt am ryw saith munud. Cyn sedd ar ochr y ffordd, ewch dros glwyd ac ar hyd llwybr gwastad tua'r chwith. Ar ôl tri munud mi ewch heibio ysgubor gerrig draddodiadol ac i'r chwith am ychydig tuag at giât. Ewch ymlaen, ac wrth gyrraedd pen yr allt mi welwch chi gamfa o'ch blaen. Croeswch gae arall, ar i lawr yn raddol, a thrwy glwyd. Dringwch y gamfa sy'n union ar y dde a chroeswch y nant gerllaw. Ewch i'r chwith, gyda'r gwrych ar eich chwith. Ar ôl dau funud, ewch heibio tŷ cerrig Ty'n y Fedw ac ymlaen am bum munud ar lwybr gwastad uwchben y gwrych, gyda llawer o redyn yn gwmni!

Ewch drwy'r glwyd a thrwy goedwig, gan gadw ar drywydd gwastad am saith munud at weirglodd. Cadwch ar y trywydd gwastad, gan ddilyn amlinell y bryn, gan adael y cae o fewn pedwar munud trwy glwyd ac at lôn gerrig sy'n troi'n darmac. Ewch i'r chwith ac i lawr allt am

dri munud at lôn darmac ger gorsaf bwmpio. I aros ar y daith, ewch ymlaen. I fanteisio ar safle bws a blwch ffôn Tregeiriog, croeswch y bont dros yr afon ac ewch ymlaen am bum munud.